# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2246 |
| Committee | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Date | 09/11/2020 |
| Attendees | Cynghorwyr John C. Morgan (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Mark Holland (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Pritchard (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stewart Healy (Guest)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Guest)<br>Cynghorwyr John Hill (Guest)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Guest)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Guest)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Guest)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Guest)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Guest)<br>Cynghorwyr Haydn Trollope (Guest)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Guest)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Richard Bridge (Swyddog)<br>Andrea Prosser (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Ceri Edwards Brown (Secretary) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2897 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| Item ID | 2898 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier, L. Elias a H. McCarthy. |

| Item ID | 2899 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiad buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 2902 |
|---|---|
| Item Title | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 2903 |
|---|---|
| Item Title | Drafft Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol am yr adroddiad a dywedodd fod yr adroddiad yn ystyried y prif gynigion a gynhwysir o fewn drafft adroddiad 2021/22 fel y maent yn ymwneud yn uniongyrchol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.<br><br>Wedyn gofynnwyd am farn Aelodau am yr adroddiad.<br><br>Holodd Aelod am yr elfen gofal yng nghyswllt treuliau personol. Esboniodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol pan gaiff hynny ei adrodd dan y datganiad o daliadau a wnaed, bod y cofnod isaf ar y datganiad cyfrifon yn dangos y cyfanswm gwerth a ad-dalwyd. Nid yw'r manylion yn priodoli unrhyw gyfeiriad i unrhyw Aelod etholedig.<br><br>Ychwanegodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori diwethaf a'r drafodaeth am sut yr adroddir cost gofal, bod y Pwyllgor hwn a'r Cyngor wedi cytuno y byddai'n cael ei adrodd fel swm cronnus a heb ei briodoli i unigolion.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at baragraff 2.12.6 yr adroddiad a holodd os yw'r Awdurdod yn annog amrywiaeth ac yn hyrwyddo defnydd cyfraniadau tuag at gostau gofal a chymorth personol. Dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau ei bod, fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, wedi cefnogi ac annog Aelodau i hawlio cyfraniad at gost |

gofal. Teimlai y gallai rhai Aelodau fanteisio o'r cyfle, fodd bynnag, dewis personol Aelodau yw hynny. Cafodd y neges hefyd ei hailadrodd pan gyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor. Pe byddai Aelodau yn dymuno trafod y mater gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd byddai'n croesawu'r cyfle i annog mwy o ddefnydd ar y cynnig.

Yng nghyswllt paragraff 2.13 Hawl i Absenoldeb Teuluol, holodd Aelod os oedd cyfnod wedi ei osod ar gyfer Aelodau etholedig yn dirprwyo dros uwch ddeiliad cyflog. Dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau, er fod cyfeiriad at hyn, nad yw'r adroddiad yn rhoi unrhyw derfyn amser penodol. Dynodwyd ychydig o anomaliau yn ystod y cyfnod ymgynghori ac mae elfennau o'r adroddiad drafft sydd angen eu gwella. Os oes achos lle penodwyd dirprwy i swydd cyflog uwch, teimlai y byddai cyfnod y penodiad hwnnw yn dibynnu ar amgylchiadau personol y sefyllfa ac y byddai'r Cyngor llawn yn penderfynu pa ymagwedd i'w dilyn.

Holodd Aelod am gydnabyddiaeth ariannol i gefnogi Aelodau i wella cysylltedd digidol, cyflymder band eang ac yn y blaen. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol fod y drafft adroddiad yn cyfeirio at Aelodau etholedig i gael defnydd parod o wasanaethau e-bost a mynediad electronig i wybodaeth briodol drwy gysylltiad rhyngrwyd. Heb gysylltiadau digonol, byddai Aelodau yn cael eu cyfyngu'n sylweddol yn eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau.

Dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau mai'r pwynt cyffredinol o'r adroddiad oedd Aelodau yn cael eu cefnogi i gael mynediad i offer TGCh digidol addas a threfniadau fel nad oeddent dan anfantais a theimlai y gallai fod nad yw hyn o reidrwydd yn daliad am gysylltedd band eang estynedig. Nid yw'r drafft adroddiad yn cyfeirio yn benodol at hyn, byddai'r Pennaeth Lywodraethiant a Phartneriaethau yn anfon y sylwadau i gael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai materion TGCh yn dod yn fwy cyffredin yn y dyfodol.

Cyfeiriodd Aelod at y gwahaniaethau sylweddol mewn cysylltedd mewn gwahanol rannau o'r bwrdeistref a'i fod yn hapus i dalu am fand eang dibynadwy. Teimlai y dylid rhoi ystyriaeth i ganfyddiad y cyhoedd ar y mater hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am dreuliau milltiroedd a'u lwfansau cynhaliaeth, eglurodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol fod y Cyngor yn cael eu talu yn unol â chyfraddau HMRC a chyhyd â bod y taliad yn gyfartal neu'n llai na'r gyfradd HMRC, nid oes unrhyw oblygiadau treth o gwbl ar hawliadau milltiredd. Nid oes unrhyw oblygiadau treth ar lwfansau cynhaliaeth gan fod hyn yn ad-daliad o symiau derbynneb gwirioneddol hyd at yr uchafswm.

Dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau fod hwn yn gyfle i Aelodau wneud unrhyw sylwadau penodol a chadarnhaol yn ystod y cyfnod

| | |
|---|---|
| | ymgynghori. Disgwylir fersiwn terfynol yr adroddiad ym mis Chwefror 2021 a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ddiwedd mis Chwefror/dechrau mis Mawrth yn unol â'r Flaenraglen Gwaith. Cyflwynir adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Cyngor gyda phenderfyniadau'r Panel wedi eu gosod i'r Cyngor gydymffurfio â nhw.<br><br>Cododd Aelod bryderon am broblemau cysylltedd TGCh ac mewn trafodaeth cynigiwyd codi'r mater fel rhan o Adroddiad Cynnydd Diwedd y Flwyddyn Trefniadau Democrataidd ar y Flaenraglen Gwaith.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd Gareth A. Davies y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell i'r Cyngor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar y penderfyniadau a gynhwysir yn Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn Atodiad 1 ar gyfer 2021/2022. |

| Item ID | 2904 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith Arfaethedig 2020/21 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau am yr adroddiadau ar y Flaenraglen Gwaith. Cafodd cyfarfod y Pwyllgor ei ohirio oherwydd y pandemig a chynigiwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer diwedd Chwefror/dechrau Mawrth fel y byddai Aelodau yn cael cyfle i weld adroddiad terfynol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor. Byddai Adroddiad Cynnydd Diwedd y Flwyddyn Trefniadau Democrataidd yn rhoi sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac yn clymu lan gydag Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Yng nghyswllt Datganiad Taliadau a Rhestr o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau, mae goblygiadau statudol yn parhau o fewn yr amserlen a osodwyd ac mae angen i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen. Bydd adroddiad terfynol y Panel yn cael ei ychwanegu at y Flaenraglen Gwaith os yw ar gael.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am gydweithwyr o SRS yn cael eu gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod materion yn ymwneud â chysylltedd digidol, dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau fod materion cysylltedd wedi symud ymlaen mewn modd sylweddol iawn ers y drafodaeth ddiwethaf oherwydd y pandemig gydag Aelodau'n awr yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor ffurfiol drwy Microsoft Teams ac ar-lein gyda chefnogaeth gan Swyddogion ac dyma'r un darlun ledled Cymru. Roedd y materion TGCh a godwyd yn y drafodaeth flaenorol |

| | |
|---|---|
| | yn benodol iawn ac efallai nad ydynt yn berthnasol nawr. Wrth symud ymlaen, gellid ystyried presenoldeb o bell gan Aelodau mewn adroddiadau yn y dyfodol.<br><br>Holodd Aelod am broblemau cael mynediad i eitemau eithriedig ar ap Modern.Gov. Dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y gall hyn fod yn broblem gyda gweithrediad a datblygu cynnyrch ar ap Modern.Gov, byddai'n gwneud ymholiadau i weld os gwnaed unrhyw gynnydd ar y pwynt hwn a rhoi diweddariad i Aelodau ar yr adroddiad.<br><br>Soniodd Aelod arall y gall fod goblygiadau cost yn gysylltiedig gydag eitemau eithriedig ar ap Modern.Gov. Dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y gall fod yn wir fod angen ychwanegu rhai swyddogaethau ychwanegol at ap Modern.Gov a byddai hefyd yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad a gyflwynir.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>Yng nghyswllt Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, mynegodd Aelod ei werthfawrogiad am waith y Tîm Gwasanaethau Democrataidd i gefnogi Aelodau. Cytunodd y Cadeirydd a'r Pwyllgor gyda sylwadau'r Aelod a hefyd fynegi eu diolch am y gefnogaeth a gafwyd.<br><br>Diolchodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau i Aelodau am eu sylwadau a dywedodd y bu'n gyfnod anodd iawn ac y bu'r Aelodau yn rhagorol yn y ffordd y gwnaethant gydio yn y ffordd newydd hyn o weithio, bu'n rhaid i bawb ddysgu llawer mewn cyfnod byr.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. |

| Item ID | 2901 |
|---|---|
| Item Title | Amser Cyfarfodydd y Dyfodol |
| Summary | CYTUNODD y Pwyllgor y cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 10.00 a.m. yn y dyfodol. |